Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**
—
Welsh Parliament
**Business Committee**

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

5 Mehefin 2020

Annwyl Janet,

**Dadl ar ddeisebau â dros 5,000 o lofnodion**

Diolch am eich llythyr yn gofyn am gyngor gan y Pwyllgor Busnes ar bennu amserlenni dadleuon ar gyfer deisebau â dros 5,000 o lofnodion yn ystod argyfwng Covid-19. Trafododd y Pwyllgor y llythyr yn ei gyfarfod ar 1 Mehefin.

Mae'r Pwyllgor Busnes eisoes wedi cytuno i drefnu dadleuon sy'n ymwneud â Covid-19 yn unig yn y tymor byr, ac ni fyddai felly'n trefnu dadleuon ar hyn o bryd ar 'P-05-946 Achub adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Brenhinol Morgannwg' a 'P-05-949 ARBED YR HEN YSGOL GANOLRADD I FERCHED Y BONT-FAEN RHAG EI DYMCHWEL', nac yn aildrefnu'r ddadl ar gyfer 'P-05-912 Cynorthwyo teuluoedd sy'n colli plant a phobl ifanc yn sydyn ac yn annisgwyl'.

Fodd bynnag, nododd Rheolwyr Busnes y bydd eich Pwyllgor yn ystyried 'P-05-967 Annog Llywodraeth Cymru i ddiwygio ei pholisi ar ryddhad ardrethi annomestig i helpu i gadw siopau Debenhams ar agor yng Nghymru' yn ei gyfarfod nesaf, a bod hynny'n berthnasol i'r pandemig presennol. Os byddwch wedyn yn penderfynu gofyn am ddadl ar y ddeiseb hon, bydd y Pwyllgor Busnes yn ystyried eich cais bryd hynny.

Mae'r Pwyllgor Busnes yn adolygu trefniadaeth busnes y Cyfarfod Llawn yn barhaus, a byddaf yn eich hysbysu wrth i amgylchiadau newid.

Yn gywir

Elin Jones

**Elin Jones AS**
Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPwyllgorBusnes@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
0300 200 6565